Dŵr Cymru
Welsh Water

# Rhestr Taliadau Gwasanaethau i Ddatblygwyr

2022-23



dwrcymru.com

PAB 0126

# Cynnwys

Diffiniad o dermau 3
1. Cyflwyniad 4
2. Sut i gysylltu â ni 5
3. Sut i dalu 5
4. Gwasanaethau sy'n destun cystadleuaeth 5
5. Methodoleg codi tâl 5
6. Cwynion 6
7. Rhag-gynllunio, chwiliadau a lleoliad yr ased 7
8. Cysylltiadau dŵr 9
9. Hunanosod 16
10. Carthffosiaeth 19
11. Taliadau seilwaith 21

**Y stori nid er elw**
Dysgwch ble y caiff eich arian ei fuddsoddi yn **dwrcymru.com/gwahanol**

# Diffiniad o dermau

Defnyddir y diffiniadau isod yn y rhestr hon, oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall:

**'Ailddatblygiad'** – safle lle newidir y cysylltiadau neu'r defnydd ohonynt. Mae ailddatblygiad yn cynnwys, er enghraifft, adeiladu tai newydd yn lle hen dai, troi tŷ mawr yn fflatiau, cyfuno dau eiddo neu fwy yn un, addasu ffatri i weithredu fel swyddfeydd, ymestyn ffatri neu swyddfeydd, a newid cyflenwad dŵr adeilad i gyflenwad preswyl.

**'Cwmni'** – Dŵr Cymru Cyfyngedig.

**'Cysylltiad'** – cysylltiad a reoleiddir gan y Ddeddf a deddfwriaeth berthnasol arall, sy'n cyflenwi gwasanaethau'r Cwmni i'r cwsmer.

**'Deddf'** – Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 ac unrhyw ddiwygiadau iddi.

**'Dibenion domestig'** – yn gyffredinol, cyflenwad at ddibenion yfed, golchi, coginio, gwres canolog ac iechyd, fel y'i diffinnir yn Adran 218 o'r Ddeddf.

**'Dibreswyl'** – safle/cwsmer heblaw am safle/cwsmer preswyl. Gweler uchod am ddiffiniad o safle preswyl.

**'Eiddo'** – adeilad parhaol, ei dir ac atodion neu unrhyw gyfleuster lle y darperir cyflenwad dŵr neu wasanaethau dŵr gwastraff. Mae adeilad yn cynnwys tŷ neu ran o adeilad y gellir ei feddiannu ar wahân.

**'Pibell gyflenwi'** – unrhyw ran o bibell wasanaeth nad yw ac na fu'n ofynnol i'r Cwmni ei gosod o dan Adrannau 45 a 46 o'r Ddeddf.

**'Pibell wasanaeth'** – y bibell (neu ran o'r bibell) sy'n cyflenwi dŵr o brif bibell y Cwmni i unrhyw safle, fel y'i diffinnir yn Adran 219 o'r Ddeddf.

**'Preswyl'** – unrhyw adeilad neu ran o adeilad y mae pobl yn byw ynddo fel tŷ annedd, p'un a yw'n dŷ annedd preifat neu beidio, neu os yw'n wag, sy'n debygol o gael ei ddefnyddio felly. (Fel y'i disgrifir yn Adran 219 o'r Ddeddf). Yn arbennig, mae tŷ yn cynnwys fflat ond nid carafán na chartref symudol sydd wedi'i leoli dros dro.

**'Tâl seilwaith'** – tâl seilwaith dŵr neu dâl seilwaith carthffosiaeth.

**'Treth ar Werth'** neu 'TAW' – treth ar werth sy'n daladwy o dan Ddeddf Treth ar Werth 1994

# 1. Cyflwyniad

Caiff y taliadau sydd wedi'u cynnwys yn y ddogfen rhestr taliadau hon eu codi gan Dŵr Cymru Cyfyngedig (y Cwmni). Mae'r rhain yn atodol i'r taliadau sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Taliadau'r Cwmni a rhestrau taliadau eraill a gyhoeddir gan y Cwmni.


Bydd y taliadau'n gymwys o 1 Ebrill 2022 nes y byddant yn cael eu dirymu, eu diwygio, eu disodli neu eu newid mewn unrhyw ffordd arall gan y Cwmni.

Ar gyfer unrhyw wasanaeth ychwanegol a ddarperir gan y Cwmni y codir tâl amdano (e.e. darparu cyfleuster neu sicrhau bod hawl ar gael), gall y Cwmni godi taliadau y mae'n eu hystyried yn briodol mewn perthynas â chost darparu'r gwasanaeth. Pan wneir gwaith na chodir tâl safonol amdano, byddwn yn rhoi pris i chi. Bydd hyn yn cynnwys costau ar gyfer yr holl waith sy'n ofynnol i gyflawni'r cynllun unigol. Efallai y bydd angen talu am y rhain ymlaen llaw.

Mae'r Cwmni'n gweithredu yn yr ardal a ddangosir ar y map isod.

Mae'r cwmni yn cynhyrchu nifer o gyhoeddiadau gwybodaeth i gwsmeriaid am y gwasanaethau a ddarperir ganddo. Ceir manylion amdanynt ar ein gwefan yn **dwrcymru.com**.

Ers mis Ebrill 2018 mae cwmnïau dŵr sy'n gweithredu'n gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr wedi gorfod codi tâl am gysylltiadau newydd (prif bibellau a gwasanaethau) yn unol â'r rheolau codi tâl diwygiedig a bennir gan OFWAT. Nid yw'r newid hwn yn berthnasol i Dŵr Cymru ar hyn o bryd, gan gynnwys yr ardaloedd hynny yn Lloegr yn ein hardal weithredu.



## 2. Sut i gysylltu â ni

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch unrhyw wasanaethau a restrir yn y cyhoeddiad hwn, cysylltwch â:

Gwasanaethau i Ddatblygwyr
Dŵr Cymru
Blwch Swyddfa'r Post 3146
Linea
Fortran Road
Caerdydd
CF30 0EH

Ffôn: 0800 917 2652

E-bost: developer.services@dwrcymru.com

Gwefan: developers.dwrcymru.com/cy-gb

## 3. Sut i dalu

**Cardiau Credyd/Debyd**
Gall cwsmeriaid dalu drwy ddefnyddio eu cardiau credyd/debyd, unrhyw bryd, naill ai ar-lein ar y wefan uchod neu drwy ffonio ein llinell dalu awtomataidd 24 awr ar 0800 917 2652. Gall cwsmeriaid dalu drwy ddefnyddio'r rhan fwyaf o gardiau credyd/debyd. Sicrhewch fod eich rhif cyfeirnod wrth law.

**Talu drwy Siec**
Gall cwsmeriaid dalu drwy siec. Mae'n rhaid i gyfeirnod y dyfynbris gael ei ysgrifennu ar gefn y siec, a dylid nodi 'A/C Payee'. Dylid gwneud sieciau yn daladwy i Dŵr Cymru Cyf a'u hanfon i:

Gwasanaethau i Ddatblygwyr
Dŵr Cymru
Blwch Swyddfa'r Post 3146
Linea
Fortran Road
Caerdydd
CF30 0EH

## 4. Gwasanaethau sy'n destun cystadleuaeth

Mae gan ddatblygwyr ddewis o ran pwy sy'n cyflawni gweithgareddau penodol ar eu safleoedd. Gelwir hyn yn waith sy'n destun cystadleuaeth, ac mae'n golygu bod naill ai'r cwmni dŵr neu sefydliad addas arall yn gallu cyflawni'r gweithgareddau. Mewn achosion penodol, er mwyn bodloni ein rhwymedigaethau statudol, bydd angen i ni ymgymryd â'r gwaith ein hunain. Cyhoeddir rhestr o wasanaethau sy'n destun cystadleuaeth (sy'n gallu cael eu cyflawni gan eraill) ochr yn ochr â'r ddogfen hon fel atodiad.

## 5. Methodoleg codi tâl

Caiff taliadau eu cyfrifo ar sail 'o'r gwaelod i fyny' drwy ddefnyddio modelau cost safonol y Cwmni. Caiff costau uniongyrchol megis llafur, ffioedd contractwyr, peiriannau, cyfarpar a deunyddiau eu cynnwys. Caiff Gwasanaethau i Ddatblygwyr a gorbenion busnes cyfanwerthu eu cymhwyso yn gymesur â'r costau uniongyrchol a chaiff lwfans ei gynnwys lle y bo'n briodol. Dilynir yr un fethodoleg ar gyfer taliadau 'pris ar gais'.

O dan y ddeddfwriaeth gyfredol sy'n effeithio ar gwmnïau sy'n gweithredu'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru, cyfrifir y dŵr a ddarperir ar gyfer prif bibellau tân dynodedig neu ar gyfer cysylltiadau domestig lle mae'r diamedr yn >63mm, cynlluniau dŵr hunanosod (gan gynnwys y taliad ased sy'n ddyledus), taliadau archeb (gan gynnwys gwrthbwyso'r incwm), a thaliadau ar gyfer gwyriadau fesul achos. Bydd cost y cynllun yn seiliedig ar gost amcangyfrifedig dylunio a darparu'r cynllun unigol ac yn dilyn cwblhau'r gwaith, byddwn yn ymgymryd â chyfrif terfynol er mwyn sicrhau bod y swm terfynol a delir yn adlewyrchiad cywir o'r costau yr awn iddynt wrth ddarparu'r cynllun penodol hwnnw. Rydym hefyd wedi cynhyrchu cyfres o becynnau enghreifftiol fel rhan o'n datganiad o newidiadau sylweddol, sy'n rhoi syniad o'r costau ar gyfer nifer o ddatblygiadau damcaniaethol. I gael rhagor o wybodaeth am y gwasanaethau hyn, ewch i'n gwefan.

# 6. Cwynion

Ein nod yw sicrhau ein bod yn gwneud pethau'n iawn y tro cyntaf, bob tro – ond gwyddom y gall pethau fynd o chwith o bryd i'w gilydd. Ein ffordd ddewisol o ddelio â chwynion yw dros y ffôn, gan mai hon yw'r ffordd gyflymaf o'u datrys. Gall cwsmeriaid ein ffonio ar y rhif canlynol **0800 917 2652**.

Os ydych wedi ein ffonio a'ch bod am wneud cwyn o hyd, gallwch gysylltu drwy e-bost neu lythyr. Er mwyn sicrhau bod eich cwyn yn cyrraedd y tîm cywir, defnyddiwch y cyfeiriad ar dudalen 5. Os na fyddwch yn fodlon ar yr ymateb i'ch cwyn o hyd, neu'r ffordd y cafodd eich cwyn ei thrin, gallwch ysgrifennu atom i ofyn i un o'n Cyfarwyddwyr gynnal adolygiad. I wneud hyn, cysylltwch â ni eto gan ddefnyddio'r cyfeiriad ar dudalen 5. Os byddwn wedi adolygu eich cwyn yn llawn a'ch bod yn credu y gallem fod wedi gwneud mwy, gallwch ofyn i'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr adolygu eich achos. Mae hwn yn gorff annibynnol sy'n cynrychioli buddiannau cwsmeriaid ac yn ymchwilio i gwynion. Gallwch ymweld â'i wefan ccwater.org.uk, ei ffonio ar 0300 034 3333, neu ysgrifennu ato yn:

Consumer Council for Water
23 Stephenson Street,
Birmingham,
B2 4BH

Dim ond cwynion sydd eisoes wedi'u cyfeirio at y Cwmni y bydd y Cyngor Defnyddwyr Dŵr yn ymchwilio iddynt fel arfer. Wrth ysgrifennu ato, byddai'n ddefnyddiol amgáu copi o'r ymateb a gawsoch gan y Cwmni.

Os yw eich cwyn wedi'i hadolygu'n llawn gennym ni a'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr, a'ch bod yn anfodlon o hyd, gallwch gysylltu â WATRS. Mae WATRS yn wasanaeth dyfarnu annibynnol, am ddim, sy'n adolygu anghydfodau rhwng cwsmeriaid a chwmnïau lle nad yw'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr wedi gallu eu datrys a lle mae wedi penderfynu na all wneud rhagor. Nodir ei fanylion cyswllt isod; gallwch wneud cais ar ei wefan neu ofyn iddo anfon ffurflen gais atoch.

**WATRS**
International Dispute Resolution Centre
70 Fleet Street, London, EC4Y 1EU

**0207 520 3801**
**watrs.org**

Gellir cyfeirio rhai cwynion at Ofwat o dan ddarpariaethau Deddf y Diwydiant Dŵr 1991. Ei fanylion cyswllt yw:

**The Water Services Regulation Authority (OFWAT)**
**Centre City Tower**
**7 Hill Street**
**Birmingham**
**B5 4UA**

**Ffôn:** 0121 644 7500

**E-bost:** mailbox@ofwat.gsi.gov.uk

Dylai unrhyw ohebiaeth ag Ofwat gynnwys copïau o ohebiaeth gyda'r Cwmni a'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr.

# 7. Rhag-gynllunio, chwiliadau a lleoliad yr ased

## Rhag-gynllunio

| Eitem | Gwybodaeth Ychwanegol | Tâl |
|---|---|---|
| Ymateb rhag-gynllunio ysgrifenedig | Ar gyfer dŵr a dŵr gwastraff. Bydd ein gwasanaeth rhag-gynllunio yn rhoi gwybodaeth i chi ynglŷn â ph'un a all ein hasedau roi cymorth i'ch datblygiad. Er mwyn darparu'r gwasanaeth hwn, bydd angen unrhyw wybodaeth berthnasol arnom am eich datblygiad, gan gynnwys graddfa/nifer yr anheddau newydd ac unrhyw strategaethau draenio arfaethedig. Cyfeiriwch at yr adran Gwasanaethau i Ddatblygwyr ar ein gwefan am y wybodaeth a roddir fel rhan o'r gwasanaeth hwn. | £75.00 + TAW |

## Cynlluniau ein hasedau

Rydym yn ystyried ceisiadau ar gyfer cynlluniau ein hasedau yn unol â'n rhwymedigaethau o dan Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004, ac rydym yn cymhwyso tâl a ganiateir am eu darparu. Mae cynlluniau ein hasedau y tu allan i gwmpas TAW.

| Eitem | Gwybodaeth Ychwanegol | Tâl |
|---|---|---|
| Cynllun Dŵr (A3/A4)<br>Cynllun Carthffosiaeth (A3/A4)<br>Cynllun Dŵr (A1/A0)<br>Cynllun Carthffosiaeth (A1/A0) | Mae tâl yn gymwys fesul cynllun. Graddfa 1:1250 neu 1:2500.<br>Noder mai dim ond ar gyfer eiddo yn ein hardal rydym yn darparu'r gwasanaeth hwn.<br>Gallwch hefyd weld y cofnodion hyn am ddim yn ein swyddfeydd dynodedig.<br>I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Gwasanaethau i Ddatblygwyr. | £8.00<br>(Y tu allan i gwmpas TAW) |

## Chwiliadau draenio a dŵr

| Eitem | Gwybodaeth Ychwanegol | Tâl |
|---|---|---|
| Chwiliad draenio a dŵr at ddibenion trawsgludo eiddo | Noder mai dim ond ar gyfer eiddo yn ein hardal rydym yn darparu'r gwasanaeth hwn. | £8.00 + TAW |

# Arolygon o Leoliad yr Ased

## Dŵr

| Eitem | Gwybodaeth Ychwanegol | Tâl |
|---|---|---|
| Cynnal ymweliad â'r safle ac arolwg uwchlaw lefel y ddaear o'r brif bibell ddŵr i ddarparu lleoliad dangosol | Noder bod ein gallu i olrhain prif bibell ddŵr yn dibynnu ar ddeunydd y bibell. Yn gyffredinol, dim ond ar gyfer pibellau metelaidd y mae olion o'r fath yn effeithiol | Pris ar gais + TAW |
| Cynnal arolwg mewnol o'r brif bibell ddŵr at ddibenion lleoliad | Oherwydd y technegau arolygu arbenigol sydd eu hangen, caiff pob safle ei asesu'n unigol | Pris ar gais + TAW |
| Ymchwiliadau Twll Prawf | Lle y bo angen gwirio data arolwg neu bennu dyfnder pibell yn gywir, efallai y bydd angen tyllau prawf | Pris ar gais + TAW |
| Ffi Goruchwylio | Lle y caniateir i chi gynnal eich gwaith ymchwil eich hun, efallai y bydd angen i ni oruchwylio ar y safle | Pris ar gais + TAW |

## Gwastraff

| Eitem | Gwybodaeth Ychwanegol | Tâl |
|---|---|---|
| Arolwg teledu cylch cyfyng (CCTV) ar gyfer eiddo preswyl safonol a lle mae'r garthffos yn llai na 225mm mewn diamedr | Cwblhau arolwg o leoliad ac arolwg teledu cylch cyfyng (CCTV) er mwyn nodi safle, dyfnder, maint a chyflwr bras y garthffos gyhoeddus berthnasol/ carthffosydd cyhoeddus perthnasol o fewn ffin yr eiddo | £178.00 + TAW |
| Arolygon teledu cylch cyfyng (CCTV) ar gyfer eiddo preswyl safonol a lle mae'r garthffos yn fwy na 225mm mewn diamedr neu ar gyfer datblygiadau masnachol neu breswyl mawr | Cwblhau arolwg o leoliad ac arolwg teledu cylch cyfyng (CCTV) er mwyn nodi safle, dyfnder, maint a chyflwr bras y garthffos gyhoeddus berthnasol/ carthffosydd cyhoeddus perthnasol. Oherwydd y technegau arolygu arbenigol sydd eu hangen ar gyfer pibellau mawr iawn, caiff pob safle ei asesu'n unigol | Pris ar gais + TAW |
| Ymchwiliadau Twll Prawf | Lle y bo angen gwirio data arolwg neu bennu dyfnder pibell yn gywir, efallai y bydd angen tyllau prawf | Pris ar gais + TAW |
| Ffi Goruchwylio | Lle y caniateir i chi gynnal eich gwaith ymchwil eich hun, efallai y bydd angen i ni oruchwylio ar y safle | Pris ar gais + TAW |

Noder mai dim ond ar gyfer asedau yn ein hardaloedd gweithredu ein hunain, sy'n wahanol ar gyfer ein rhwydweithiau dŵr a charthffosiaeth, rydym yn darparu'r gwasanaethau hyn. Gweler y map ar flaen y llyfryn hwn am fanylion pellach.

# 8. Cysylltiadau dŵr

## Taliadau

Mae'r taliadau'n daladwy gan yr endid/unigolyn (unigolion) sy'n gofyn am y cysylltiad ac fel arfer maent yn ddyledus cyn i'r cysylltiad gael ei wneud. Mae'n rhaid i bob safle gael cysylltiad ar wahân. Dylid gosod mesurydd ym mhob cysylltiad newydd. Lle mae system Taenellwr Tân Domestig wedi'i gosod ar y safle o dan Fesurau Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011, ni chaiff tâl ei godi am ddŵr a ddefnyddiwyd at ddibenion atal tân.

Yr endid/unigolyn (unigolion) sy'n gofyn am gysylltiad newydd fydd yn gyfrifol am unrhyw daliadau gwasanaeth o'r dyddiad cysylltu/gosod mesurydd a bydd yn parhau i fod yn gyfrifol nes y caiff Dŵr Cymru ei hysbysu'n wahanol. Felly, mae angen gwybodaeth arnom o ran newidiadau mewn cyfrifoldeb yn brydlon gan gynnwys dyddiadau, darlleniadau mesurydd a manylion yr endid/unigolyn (unigolion) sy'n dod yn gyfrifol am y taliadau gwasanaeth er mwyn ein galluogi i filio'n gywir. Yn unol â Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 Adran 144 (3) rydym yn cadw ein hawl ond i ymrwymo i'r newid o'r dyddiad y cawsom y wybodaeth, ac nid yn ôl-weithredol. Byddem felly'n annog eich sefydliad i'n hysbysu'n brydlon (h.y. o fewn 14 diwrnod fan bellaf) am unrhyw newidiadau, er mwyn i chi roi'r gorau i'ch cyfrifoldeb dros daliadau gwasanaeth ar yr adeg gywir. Pan wneir gwaith na chodir tâl safonol amdano, byddwn yn rhoi pris i chi. Mae dyfynbrisiau yn ddilys am 6 mis – os na chaiff dyfynbris ei dderbyn o fewn y cyfnod hwn, bydd angen gwneud cais newydd gyda blaendal nad yw'n ad-daladwy (tâl drosodd).

## Treth ar Werth (TAW)

Codir TAW ar daliadau am gysylltiad newydd ar y gyfradd safonol, oni bai y cânt eu rhoi yn ystod y gwaith o godi adeilad sy'n gymwys ar gyfer y gyfradd sero neu gyfradd TAW ostyngol (5%) yn unol â chanllawiau CThEM ar Adeiladau ac Adeiladwaith (Hysbysiad TAW 708). Er enghraifft, bydd adeiladu annedd newydd yn gymwys ar gyfer TAW ar gyfradd sero; gall cyfradd TAW ostyngol (5%) fod yn gymwys ar gyfer eiddo penodol sy'n cael ei adnewyddu neu ei addasu at ddibenion preswyl. Mae'r holl daliadau cysylltu yn daladwy ymlaen llaw. Codir TAW ar bob tâl ar gyfer cysylltiad newydd Hunanosod.

Cyflwynodd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM) ofyniad newydd ar 1 Mawrth 2021 sy'n effeithio ar gyflenwadau o wasanaethau adeiladu a wneir rhwng busnesau adeiladu a elwir yn daliad gwrthdro domestig am wasanaethau adeiladu.

Fodd bynnag, mae CThEM wedi derbyn nad yw'r gofyniad newydd hwn yn gymwys i'n trefniadau codi tâl am gysylltiadau newydd am fod yr incwm yn ymwneud ag addasiadau i rwydweithiau Dŵr Cymru, a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau dŵr glân a dŵr gwastraff i'n cwsmeriaid.

O ganlyniad, bydd TAW yn parhau i gael ei chodi ar ein dyfynbrisiau a'n hanfonebau am daliadau, pan fo'n gymwys, yn y ffordd arferol ac nid ydynt yn rhan o gwmpas trefniadau'r taliad gwrthdro.

Ceir rhagor o wybodaeth yn Adran 18 o lawlyfr technegol ar-lein CThEM y gellir dod o hyd iddo yn www.gov.uk

## Maint Cysylltiad

Maint safonol cysylltiad y Cwmni ag eiddo preswyl neu fasnachol yw diamedr allanol o 25mm neu gallwn ddarparu cysylltiad â diamedr allanol o 32mm os yw'r cwsmer yn gosod system taenellwr tân domestig â chyflenwad uniongyrchol (cyfeiriwch at ein dogfen ganllaw ar ein gwefan ar gyfer systemau taenellwyr tân). Ar gyfer cysylltiadau sy'n fwy na 63mm, bydd angen cais a blaendal dylunio ar wahân er mwyn talu'r costau gweinyddu a dylunio yr awn iddynt.

## Rheoli Traffig

Pan fydd mesurau rheoli traffig yn ofynnol er mwyn gwneud cysylltiad dŵr newydd yn ddiogel, bydd y tâl a gymhwysir ar gyfer 'Prif ffordd neu pan fo angen rheoli traffig' ni waethpa fath o ffordd ydyw. Lle y caiff mesurau rheoli traffig eu cynnwys fel rhan o dâl cysylltiad newydd, mae hyn yn cynnwys goleuadau traffig hyd at dair ffordd. Os bydd angen mwy o fesurau rheoli traffig, caiff y tâl ychwanegol ei godi ar sail 'pris ar gais'.

**Hysbysiad Pwysig:**

Caiff Taliadau Trwydded Agor Ffordd, fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Rheoli Traffig 2004, eu hychwanegu at y taliadau cysylltiadau newydd pan gânt eu cyflwyno yn ardal weithredu y Cwmni.

## Ffi Gwneud Cais

Mae angen talu blaendal nad yw'n ad-daladwy o £81.00 ynghyd â TAW ar y gyfradd safonol fesul cais. Caiff y blaendal hwn, nad yw'n ad-daladwy, ei ddidynnu o'r tâl sy'n gymwys ar gyfer cysylltiad newydd yn ddiweddarach.

## Cysylltiadau Newydd

Mae taliadau cysylltiadau newydd yn cynnwys dwy ran:

1. Tâl cysylltiad
2. Gweithgareddau nad ydynt yn ymwneud ag adeiladu

**Tâl cysylltiad**

Mae'r tâl cysylltiad yn cwmpasu cyflenwi deunyddiau gwaith dŵr ac ymgymryd â'r cysylltiad yn ffisegol gan gynnwys unrhyw arolygon neu arolygiadau angenrheidiol.

**Gweithgareddau nad ydynt yn ymwneud ag adeiladu**

Mae gweithgareddau nad ydynt yn ymwneud ag adeiladu yn cynnwys cyflwyno cais, adolygu cais, cyflwyno dyfynbris, derbyn taliadau, cyflwyno gorchmynion gwaith, diweddaru cofnodion ac ymgymryd ag archwiliadau ansawdd. Codir tâl am weithgareddau nad ydynt yn ymwneud ag adeiladu ar ail gysylltiadau neu gysylltiadau dilynol ar gyfradd ostyngol i adlewyrchu'r lleihad mewn amser i ymgymryd â'r gweithgareddau hyn ar gyfer cysylltiadau dilynol. Mae hyn yn golygu y codir tâl am gysylltiadau ar ôl y cyntaf ar safle ar gyfradd ostyngol, pan wneir y cysylltiad cyntaf a chysylltiadau dilynol ar yr un pryd. Rhestrir y prisiau cyfunol ar gyfer y tâl cysylltiad a'r gweithgareddau nad ydynt yn ymwneud ag adeiladu ar y tudalennau canlynol.

## Tâl seilwaith

Pan fydd eiddo yn cael ei gysylltu â'r rhwydwaith am y tro cyntaf, gall taliadau seilwaith fod yn gymwys. Gweler tudalen 22 o'r ddogfen hon am ragor o fanylion.

## Cysylltiad safonol

25mm yn cynnwys hyd at y 2 fetr cyntaf o bibell, cyflenwi a gosod mesurydd.

| Eitem | Gwybodaeth Ychwanegol | Tâl Cysylltiad Cyntaf (£) | Tâl Cysylltiad Dilynol (£) |
|---|---|---|---|
| Dim cloddio | Dim angen cloddio nac adfer | 365.00 | 315.00 |
| Tir diwyneb | Cloddio ac adfer arwyneb pridd, glaswellt neu ro | 499.00 | 449.00 |
| Llwybr troed | Cloddio ac adfer arwyneb tarmac neu goncrit plaen | 975.00 | 925.00 |
| Is-ffordd | Cloddio ac adfer arwyneb tarmac neu goncrit plaen | 1,248.00 | 1,198.00 |
| Prif ffordd neu pan fo angen rheoli traffig | Cloddio ac adfer asffalt a roliwyd yn boeth, rheoli traffig os bydd angen | 1,802.00 | 1,752.00 |
| Ychwanegol ar gyfer gosodiad ar dir halogedig | Tâl ychwanegol ar gyfer darparu a gosod ffitiadau sy'n addas ar gyfer cysylltiadau ar dir halogedig | 65.00 | 65.00 |

## Cysylltiad 32mm

32mm yn cynnwys hyd at y 2 fetr cyntaf o bibell, cyflenwi a gosod mesurydd

| Eitem | Gwybodaeth Ychwanegol | Tâl Cysylltiad Cyntaf (£) | Tâl Cysylltiad Dilynol (£) |
|---|---|---|---|
| Dim cloddio | Dim angen cloddio nac adfer | 367.00 | 317.00 |
| Tir diwyneb | Cloddio ac adfer arwyneb pridd, glaswellt neu ro | 502.00 | 452.00 |
| Llwybr troed | Cloddio ac adfer arwyneb tarmac neu goncrit plaen | 978.00 | 928.00 |
| Is-ffordd | Cloddio ac adfer arwyneb tarmac neu goncrit plaen | 1,250.00 | 1,200.00 |
| Prif ffordd neu pan fo angen rheoli traffig | Cloddio ac adfer asffalt a roliwyd yn boeth, rheoli traffig os bydd angen | 1,804.00 | 1,754.00 |
| Ychwanegol ar gyfer gosodiad ar dir halogedig | Tâl ychwanegol ar gyfer darparu a gosod ffitiadau sy'n addas ar gyfer cysylltiadau ar dir halogedig | 66.00 | 66.00 |

## Cysylltiad domestig mwy

32mm. Pan fydd cwsmer yn dewis gosod system taenellwr tân â chyflenwad uniongyrchol sy'n gofyn am gysylltiad domestig mwy na'r arfer, yna gallwn ddarparu cysylltiad domestig 32mm. Mae'n cynnwys hyd at y 2 fetr cyntaf o bibell, cyflenwi a gosod mesurydd.

| Eitem | Gwybodaeth Ychwanegol | Tâl Cysylltiad Cyntaf (£) | Tâl Cysylltiad Dilynol (£) |
|---|---|---|---|
| Dim cloddio | Dim angen cloddio nac adfer | 569.00 | 519.00 |
| Tir diwyneb | Cloddio ac adfer arwyneb pridd, glaswellt neu ro | 877.00 | 827.00 |
| Llwybr troed | Cloddio ac adfer arwyneb tarmac neu goncrit plaen | 1,312.00 | 1,262.00 |
| Is-ffordd | Cloddio ac adfer arwyneb tarmac neu goncrit plaen | 1,655.00 | 1,605.00 |
| Prif ffordd neu pan fo angen rheoli traffig | Cloddio ac adfer asffalt a roliwyd yn boeth, rheoli traffig os bydd angen | 2,272.00 | 2,222.00 |
| Ychwanegol ar gyfer gosodiad ar dir halogedig | Tâl ychwanegol ar gyfer darparu a gosod ffitiadau sy'n addas ar gyfer cysylltiadau ar dir halogedig | 43.00 | 43.00 |

## Cysylltiad safonol ar bibellau cyflenwi cyffredin

Mae'n cynnwys hyd at y 2 fetr cyntaf o bibell

| Eitem | Gwybodaeth Ychwanegol | Tâl Cysylltiad Cyntaf (£) | Tâl Cysylltiad Dilynol (£) |
|---|---|---|---|
| Dim cloddio | Dim angen cloddio nac adfer | 349.00 | 299.00 |
| Tir diwyneb | Cloddio ac adfer arwyneb pridd, glaswellt neu ro | 646.00 | 596.00 |
| Llwybr troed | Cloddio ac adfer arwyneb tarmac neu goncrit plaen | 1,007.00 | 957.00 |
| Is-ffordd | Cloddio ac adfer arwyneb tarmac neu goncrit plaen | 1,401.00 | 1,351.00 |
| Prif ffordd neu pan fo angen rheoli traffig | Cloddio ac adfer asffalt a roliwyd yn boeth, rheoli traffig os bydd angen | 2,051.00 | 2,001.00 |
| Ychwanegol ar gyfer gosodiad ar dir halogedig | Tâl ychwanegol ar gyfer darparu a gosod ffitiadau sy'n addas ar gyfer cysylltiadau ar dir halogedig | 65.00 | 65.00 |

## Cysylltiad maniffold

Ar gyfer 4 neu 6 o gysylltiadau allanol ar gyfer cysylltiadau 25mm yn unig.
Mae'n cynnwys hyd at y 2 fetr cyntaf o bibell, cyflenwi a gosod mesuryddion.

| Eitem | Gwybodaeth Ychwanegol | Tâl Cysylltiad Cyntaf (£) | Tâl Cysylltiad Dilynol (£) |
|---|---|---|---|
| Dim cloddio | Dim angen cloddio nac adfer | 1,467.00 | 1,417.00 |
| Tir diwyneb | Cloddio ac adfer arwyneb pridd, glaswellt neu ro | 1,827.00 | 1,777.00 |
| Llwybr troed | Cloddio ac adfer arwyneb tarmac neu goncrit plaen | 2,132.00 | 2,082.00 |
| Is-ffordd | Cloddio ac adfer arwyneb tarmac neu goncrit plaen | 2,993.00 | 2,943.00 |
| Prif ffordd neu pan fo angen rheoli traffig | Cloddio ac adfer asffalt a roliwyd yn boeth, rheoli traffig os bydd angen | 3,160.00 | 3,110.00 |
| Ychwanegol ar gyfer gosodiad ar dir halogedig | Tâl ychwanegol ar gyfer darparu a gosod ffitiadau sy'n addas ar gyfer cysylltiadau ar dir halogedig | 204.00 | 204.00 |

## Cysylltiad cangen mesuredig allanol

Dros 32mm a hyd at a chan gynnwys 63mm.
Mae'n cynnwys hyd at y 2 fetr cyntaf o bibell a chyflenwi a gosod mesurydd.

| Eitem | Gwybodaeth Ychwanegol | Tâl Cysylltiad Cyntaf (£) | Tâl Cysylltiad Dilynol (£) |
|---|---|---|---|
| Dim cloddio | Dim angen cloddio nac adfer | 1,215.00 | 1,165.00 |
| Tir diwyneb | Cloddio ac adfer arwyneb pridd, glaswellt neu ro | 1,529.00 | 1,479.00 |
| Llwybr troed | Cloddio ac adfer arwyneb tarmac neu goncrit plaen | 1,952.00 | 1,902.00 |
| Is-ffordd | Cloddio ac adfer arwyneb tarmac neu goncrit plaen | 2,477.00 | 2,427.00 |
| Prif ffordd neu pan fo angen rheoli traffig | Cloddio ac adfer asffalt a roliwyd yn boeth, rheoli traffig os bydd angen | 2,487.00 | 2,437.00 |
| Ychwanegol ar gyfer gosodiad ar dir halogedig | Tâl ychwanegol ar gyfer darparu a gosod ffitiadau sy'n addas ar gyfer cysylltiadau ar dir halogedig | 283.00 | 283.00 |

## Cysylltiad cangen mesuredig mewnol

Dros 32mm a hyd at a chan gynnwys 63mm, yn cynnwys hyd at y 2 fetr cyntaf o bibell a chyflenwi a gosod mesurydd. Cyfeiriwch at yr adran 'Cyflenwi mesurydd' am gostau gosod mesurydd unigol.

| Eitem | Gwybodaeth Ychwanegol | Tâl Cysylltiad Cyntaf (£) | Tâl Cysylltiad Dilynol (£) |
|---|---|---|---|
| Dim cloddio | Dim angen cloddio nac adfer | 793.00 | 743.00 |
| Tir diwyneb | Cloddio ac adfer arwyneb pridd, glaswellt neu ro | 982.00 | 932.00 |
| Llwybr troed | Cloddio ac adfer arwyneb tarmac neu goncrit plaen | 1,360.00 | 1,310.00 |
| Is-ffordd | Cloddio ac adfer arwyneb tarmac neu goncrit plaen | 1,632.00 | 1,582.00 |
| Prif ffordd neu pan fo angen rheoli traffig | Cloddio ac adfer asffalt a roliwyd yn boeth, rheoli traffig os bydd angen | 2,187.00 | 2,137.00 |
| Ychwanegol ar gyfer gosodiad ar dir halogedig | Tâl ychwanegol ar gyfer darparu a gosod ffitiadau sy'n addas ar gyfer cysylltiadau ar dir halogedig | 115.00 | 115.00 |

## Metr ychwanegol o bibell

Cyflenwi a gosod pob metr ychwanegol (neu ran ohono) ar gyfer y math o arwyneb sydd ei angen.

| Eitem | Gwybodaeth Ychwanegol | Tâl (£) |
|---|---|---|
| Dim cloddio | Dim angen cloddio nac adfer | 19.00 |
| Tir diwyneb | Cloddio ac adfer arwyneb pridd, glaswellt neu ro | 55.00 |
| Llwybr troed | Cloddio ac adfer arwyneb tarmac neu goncrit plaen | 166.00 |
| Is-ffordd | Cloddio ac adfer arwyneb tarmac neu goncrit plaen | 255.00 |
| Prif ffordd neu pan fo angen rheoli traffig | Cloddio ac adfer asffalt a roliwyd yn boeth, rheoli traffig os bydd angen | 351.00 |
| Ychwanegol ar gyfer gosodiad ar dir halogedig | Tâl ychwanegol ar gyfer darparu a gosod ffitiadau sy'n addas ar gyfer cysylltiadau ar dir halogedig | 4.00 |

## Cyflenwi mesurydd

Hyd at a chan gynnwys mesurydd 30mm

| Eitem | Gwybodaeth Ychwanegol | Tâl (£) |
|---|---|---|
| Hunanosod safle amlfeddiannaeth | Cyflenwi mesurydd, cynnal archwiliad o'r gwasanaeth, nodi manylion y cwsmer | 19.00 |
| Safle amlfeddiannaeth | Cyflenwi a gosod mesurydd, cynnal archwiliad o'r gwasanaeth, nodi manylion y cwsmer | 120.00 |

## Taliadau eraill

| Eitem | Gwybodaeth Ychwanegol | Tâl (£) |
|---|---|---|
| Mynediad i dir | Cael cymeradwyaeth(au) ar gyfer mynediad i dir, ffioedd cysylltiedig a thaliadau iawndal | Pris ar gais |
| Cau'r ffordd | Cael cymeradwyaethau cau'r ffordd, arwyddion ychwanegol a rheoli traffig | Pris ar gais |
| Ymweliad aflwyddiannus | Os bydd cysylltiad wedi'i drefnu ar sail 'dim cloddio' ac nid yw'r safle wedi'i gloddio yn briodol neu nid yw'n bosibl ymgymryd â'r gwaith yn ddiogel, byddwn yn codi tâl am ymweliad aflwyddiannus. Y tâl a ddangosir yw'r uchafswm a gymhwysir | 212.00 |
| Trwydded agor ffordd | Taliadau trwydded agor ffordd a chostau cysylltiedig | Pris ar gais |
| Mesurau rheoli traffig ychwanegol | Darparu mesurau rheoli traffig ychwanegol y tu hwnt i oleuadau traffig tair ffordd | Pris ar gais |
| Archwiliad ansawdd cysylltiad newydd | Ymweliad cyntaf | Dim tâl |
| Archwiliad ansawdd cysylltiad newydd | Cost fesul ymweliad ychwanegol | 35.00 |
| Archwiliad ffos ychwanegol | Os bydd angen archwiliad ffos yn ychwanegol i'r un cyntaf, codir tâl | 35.00 |
| Gwaith adfer | | Pris ar gais |

# 9. Hunanosod

| Eitem | Gwybodaeth Ychwanegol | Tâl (£) |
|---|---|---|
| Cytundeb Cyfreithiol | Paratoi cytundeb cyfreithiol | 69.00 |
| Cais man cysylltu | Cadarnhau ymarferoldeb cyflenwi'r datblygiad arfaethedig | 79.00 |

## Cysylltiad safonol

25mm

| Eitem | Gwybodaeth Ychwanegol | Tâl Cysylltiad Cyntaf (£) | Tâl Cysylltiad Dilynol (£) |
|---|---|---|---|
| Cwmni yn gosod mesurydd | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad. SLO yn casglu'r mesurydd o storfa Dŵr Cymru ac yn cyflawni'r gwaith gosod | 106.00 | 75.00 |
| SLO yn gosod mesurydd | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad. SLO yn casglu'r mesurydd o storfa Dŵr Cymru ac yn cyflawni'r gwaith gosod | 58.00 | 27.00 |

## Cysylltiad safonol

32mm

| Eitem | Gwybodaeth Ychwanegol | Tâl Cysylltiad Cyntaf (£) | Tâl Cysylltiad Dilynol (£) |
|---|---|---|---|
| Cwmni yn gosod mesurydd | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad. SLO yn casglu'r mesurydd o storfa Dŵr Cymru ac yn cyflawni'r gwaith gosod | 104.00 | 73.00 |
| SLO yn gosod mesurydd | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad. SLO yn casglu'r mesurydd o storfa Dŵr Cymru ac yn cyflawni'r gwaith gosod | 58.00 | 27.00 |

## Cysylltiadau domestig mwy

32mm

Y math o gysylltiad sydd ei angen fel arfer pan fydd cwsmeriaid yn gosod system taenellwr tân â chyflenwad uniongyrchol. Ar gyfer mesuryddion 32mm, caiff y blwch ffin a'r mesurydd eu gosod fel un uned. Ni allwn gynnig tâl ar wahân i Dŵr Cymru osod y mesurydd. Os bydd y datblygwr am i Dŵr Cymru ymgymryd â'r gwaith hwn, yna bydd y Gyfradd Cysylltiad Newydd perthnasol yn gymwys.

| Eitem | Gwybodaeth Ychwanegol | Tâl Cysylltiad Cyntaf (£) | Tâl Cysylltiad Dilynol (£) |
|---|---|---|---|
| SLO yn gosod mesurydd | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad. SLO yn casglu'r mesurydd o storfa Dŵr Cymru ac yn cyflawni'r gwaith gosod | 277.00 | 246.00 |

## Cysylltiad maniffold

25mm

| Eitem | Gwybodaeth Ychwanegol | Tâl Cysylltiad Cyntaf (£) | Tâl Cysylltiad Dilynol (£) |
|---|---|---|---|
| Cwmni yn gosod mesurydd | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad. SLO yn casglu'r mesurydd o storfa Dŵr Cymru ac yn cyflawni'r gwaith gosod | 104.00 | 73.00 |
| SLO yn gosod mesurydd | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad. SLO yn casglu'r mesurydd o storfa Dŵr Cymru ac yn cyflawni'r gwaith gosod | 58.00 | 27.00 |

## Cysylltiad Cangen

Dros 32mm a hyd at a chan gynnwys 63mm

**Mesurydd mewnol**

| Eitem | Gwybodaeth Ychwanegol | Tâl Cysylltiad Cyntaf (£) | Tâl Cysylltiad Dilynol (£) |
|---|---|---|---|
| Cwmni yn gosod mesurydd | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad. SLO yn casglu'r mesurydd o storfa Dŵr Cymru ac yn cyflawni'r gwaith gosod | 42.00 | 12.00 |
| SLO yn gosod mesurydd | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad. SLO yn casglu'r mesurydd o storfa Dŵr Cymru ac yn cyflawni'r gwaith gosod | 42.00 | 12.00 |

**Mesurydd allanol**

Oherwydd dyluniad y cysylltiadau hyn, caiff y blwch ffin a'r mesurydd eu gosod fel un uned. Ni allwn gynnig tâl ar wahân i Dŵr Cymru osod y mesurydd. Os bydd y datblygwr am i Dŵr Cymru ymgymryd â'r gwaith hwn, yna bydd y Gyfradd Cysylltiad Newydd perthnasol yn gymwys.

| Eitem | Gwybodaeth Ychwanegol | Tâl Cysylltiad Cyntaf (£) | Tâl Cysylltiad Dilynol (£) |
|---|---|---|---|
| SLO yn gosod mesurydd | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad. SLO yn casglu'r mesurydd o storfa Dŵr Cymru ac yn cyflawni'r gwaith gosod | 177.00 | 147.00 |

# 10. Carthffosiaeth

Mae taliadau yn yr adran hon y tu allan i gwmpas TAW

## Cysylltiadau newydd â charthffosydd

**Goruchwylio cysylltiadau carthffosiaeth:**

| Eitem | Gwybodaeth Ychwanegol | Tâl (£) |
|---|---|---|
| 1-25 o eiddo | Yn ystod oriau swyddfa: Dydd Llun i ddydd Gwener: 8.30am-5.00pm | 180.00 |
| 26+ o eiddo | Yn ystod oriau swyddfa: Dydd Llun i ddydd Gwener: 8.30am-5.00pm | 324.00 |
| Unrhyw nifer o eiddo | Y tu allan i oriau swyddfa | Pris ar gais |

## Cytundeb i adeiladu dros neu gerllaw carthffos gyhoeddus/draen ochrol

Lle mae angen cael cydsyniad gan y Cwmni i adeiladu dros neu gerllaw carthffos gyhoeddus/draen ochrol cyn dechrau gwaith adeiladu. Mae'r taliadau hyn yn gymwys ar gyfer cytundebau lle mae'r garthffos gyhoeddus neu'r draen ochrol hyd at 225mm o ddiamedr. Cyfeiriwch at y ddogfen ganllaw ar-lein sydd i'w gweld yn yr adran Gwasanaethau i Ddatblygwyr ar ein gwefan, er mwyn eich helpu i nodi pa ffi sy'n berthnasol. Bydd angen cytundeb diogelu asedau pwrpasol ar gyfer asedau â diamedr o fwy na 225mm a darperir pris ar gais.

| Eitem | Gwybodaeth Ychwanegol | Tâl (£) |
|---|---|---|
| Cydsyniad drwy lythyr | Cydsyniad drwy lythyr lle nad oes unrhyw addasiadau i'n rhwydwaith | 81.00 |
| Cydsyniad drwy lythyr | Cydsyniad drwy lythyr yn dilyn cwblhau addasiadau i'n rhwydwaith | 429.00 |
| Cydsyniad drwy Gytundeb Cyfreithiol | Cydsyniad drwy Gytundeb Cyfreithiol gydag addasiadau neu hebddynt | 517.00 |

## Cytundeb mabwysiadu draen ochrol – un eiddo

| Eitem | Gwybodaeth Ychwanegol | Tâl (£) |
|---|---|---|
| Mabwysiadu draeniau ochrol | Fetio a goruchwylio technegol | 445.00 |
| Mabwysiadu draeniau ochrol gan gynnwys comisiynu gorsaf bwmpio | Fetio, goruchwylio a chomisiynu technegol gan gynnwys gorsaf bwmpio | 2,173.00 |

## Cytundebau mabwysiadu carthffosydd – eiddo lluosog

| Eitem | Gwybodaeth Ychwanegol | Tâl (£) |
|---|---|---|
| 2 i 5 eiddo | Fetio a goruchwylio technegol | 630.00 |
| 6 i 25 o eiddo | Fetio a goruchwylio technegol | 996.00 |
| Mwy na 25 o eiddo | Fetio a goruchwylio technegol | 2,494.00 |

**Cytundeb mabwysiadu carthffos, gan gynnwys comisiynu gorsaf bwmpio**

| Eitem | Gwybodaeth Ychwanegol | Tâl (£) |
|---|---|---|
| 2 i 5 eiddo | Fetio, goruchwylio a chomisiynu technegol gan gynnwys gorsaf bwmpio | 2,358.00 |
| 6 i 25 o eiddo | Fetio, goruchwylio a chomisiynu technegol gan gynnwys gorsaf bwmpio | 2,724.00 |
| Mwy na 25 o eiddo | Fetio, goruchwylio a chomisiynu technegol gan gynnwys gorsaf bwmpio | 4,222.00 |

## Mabwysiadu carthffosydd presennol

| Eitem | Gwybodaeth Ychwanegol | Tâl (£) |
|---|---|---|
| Mabwysiadu carthffosydd a draeniau ochrol presennol ynghyd â throsglwyddiadau tir cysylltiedig, gan gynnwys:<br>— Cytundebau mabwysiadu<br>— Cytundebau hawddfraint<br>— Gweithred amrywio<br>— Gweithred rhyddhau<br>— Diddymu hysbysiadau unochrog<br>— Amser ychwanegol ar gyfer tir heb ei gofrestru | Mabwysiadu lle nad oes cytundeb mabwysiadu presennol | Pris ar gais |

## Mabwysiadu carthffosydd newydd

| Eitem | Gwybodaeth Ychwanegol | Tâl (£) |
|---|---|---|
| Mabwysiadu carthffosydd a draeniau ochrol presennol ynghyd â throsglwyddiadau tir cysylltiedig, gan gynnwys:<br>— Cytundebau mabwysiadu<br>— Cytundebau hawddfraint<br>— Gweithred amrywio<br>— Gweithred rhyddhau<br>— Diddymu hysbysiadau unochrog<br>— Amser ychwanegol ar gyfer tir heb ei gofrestru | Mabwysiadu lle nad oes cytundeb mabwysiadu presennol | Pris ar gais |

## Dargyfeirio/Addasu Carthffosydd neu Ddraeniau Ochrol gan drydydd parti lle y caniateir hynny

| Eitem | Gwybodaeth Ychwanegol | Tâl (£) |
|---|---|---|
| Dargyfeirio/Addasu Carthffosydd neu Ddraeniau Ochrol | Fetio a goruchwylio technegol. Y tâl a ddangosir yw'r isafswm a gymhwysir | 982.00 |
| Cwblhau cytundeb cyfreithiol a gwaith trosglwyddo tir cysylltiedig ar gyfer dargyfeiriadau/addasiadau. Gan gynnwys:<br>— Cytundeb A185<br>— Hawddfraint A185<br>— Diddymu hysbysiadau unochrog<br>— Amser ychwanegol ar gyfer tir heb ei gofrestru | Bydd angen i unrhyw gytundebau gael eu hategu gan sicrwydd yn unol â'n polisi ar gyfer gofynion diogelwch | Pris ar gais |

Os byddwn yn cael sawl cyflwyniad technegol rhannol neu ddiwygiedig yn eich ceisiadau, neu os bydd angen i ni gynnal nifer gormodol o ymweliadau â'r safle o ganlyniad i grefftwaith gwael, mae'n bosibl y byddwn yn ceisio adennill ein costau rhesymol ychwanegol oddi wrthych.

# 11. Taliadau seilwaith

Mae'r taliadau seilwaith ar gyfer cyflenwad at ddibenion domestig yn daladwy o dan Adran 146 o'r Ddeddf ac Amod Trwydded C (fel y'i haddaswyd) o Offeryn Penodi'r Cwmni.

Mae cysylltiadau newydd yn cynyddu'r pwysau ar y systemau dŵr a charthffosiaeth a gall hyn olygu y bydd angen gwneud gwaith arnynt yn y pen draw. Felly, yn ogystal ag unrhyw dâl cysylltiad dŵr neu garthffosiaeth a/neu dâl archebu, codir tâl seilwaith hefyd am gysylltiad dŵr newydd a thâl seilwaith am gysylltiad carthffosiaeth newydd.

Bydd taliadau seilwaith yn daladwy ar ôl cysylltu'r cyflenwad dŵr. Bydd taliadau yn gymwys ar gyfer pob gwasanaeth a ddarperir; lle y darperir cysylltiadau dŵr a charthffosiaeth, bydd y ddau daliad seilwaith yn daladwy ar y cam hwn. Os nad oes gwasanaethau carthffosiaeth yn cael eu darparu i eiddo, yna ni fydd unrhyw daliadau seilwaith carthffosiaeth yn daladwy.

Gall y taliadau hyn fod yn daladwy hefyd pan fydd safle wedi'i ailddatblygu a bod yr ailddatblygiad hwnnw yn golygu bod galw'r safle yn fwy nag yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Caiff y taliadau hyn eu bilio ar yr un pryd â'r tâl a godir am y cysylltiad dŵr. Mae taliadau seilwaith y tu allan i gwmpas TAW.

Codir un tâl seilwaith safonol fesul eiddo ar gyfer cysylltiadau domestig eiddo unigol â diamedr o 25mm, neu lle mae angen cysylltiad mwy ar gyfer cysylltiad domestig â diamedr mwy.

Codir y taliadau isod ar gyfer eiddo preswyl safonol:

| Eitem | Gwybodaeth Ychwanegol | Tâl (£) |
|---|---|---|
| Dŵr | Tâl seilwaith | 428.00 |
| Carthffosiaeth | Tâl seilwaith | 428.00 |

## Lluosyddion Perthnasol

Y tâl ar gyfer datblygiadau fflatiau gyda mesurydd unigol fesul fflat fydd un tâl safonol fesul fflat.

Caiff taliadau ar gyfer datblygiadau fflatiau a wasanaethir gan swmp gyflenwadau mesuredig ac ar gyfer endidau dibreswyl eu cyfrifo drwy luosi'r tâl safonol uchod gyda'r lluosydd perthnasol. Caiff y lluosydd perthnasol ei gyfrifo gan ddefnyddio cyfanswm yr unedau llwytho ar gyfer pob ffitiad dŵr ar y safle a gyflenwir a'i rannu â 24. Y rhif hwnnw neu un (pa un bynnag yw'r uchaf) yw'r lluosydd perthnasol.

| Math o eiddo | Math o ddefnydd | Lluosydd Perthnasol Taliadau ar gyfer Cysylltiadau Newydd | Lluosydd Perthnasol Credyd sydd ar gael os yw'r eiddo yn wag <5 Mlynedd |
|---|---|---|---|
| Preswyl | Domestig | 1 | 1 |
| Dibreswyl | Domestig | Yn seiliedig ar unedau llwytho | Yn seiliedig ar ddefnydd blaenorol |

## Unedau llwytho

Lle mae gan eiddo ddefnydd domestig ac nid yw'r cysylltiad yn gysylltiad domestig safonol nac yn gysylltiad domestig mwy, defnyddir unedau llwytho i bennu'r Lluosydd Perthnasol drwy gyfeirio at y tabl a'r nodiadau canlynol.

| Ffitiad Dŵr | Uned Lwytho |
|---|---|
| Seston Fflysio Toiled | 2 |
| Basn golchi mewn tŷ | 1.5 |
| Basn golchi mewn man arall | 3 |
| Baddon gyda thapiau maint 20mm | 10 |
| Baddon gyda thapiau sy'n fwy nag 20mm | 22 |
| Cawod | 3 |
| Sinc gyda thapiau 15mm | 3 |
| Sinc gyda thapiau sy'n fwy na 15mm | 5 |
| Tap chwistrellu | 0.5 |
| Bidet | 1.5 |
| Offer domestig (yn amodol ar isafswm o chwe uned lwytho fesul tŷ) | 3 |
| Offer cymunedol neu fasnachol | 10 |
| Unrhyw ffitiad dŵr neu allfa arall (gan gynnwys tap ond nid troethfa na meddalydd dŵr) | 3 |

## Credydau tâl seilwaith

Pan ailddatblygir safle ac mae'r Cwmni wedi darparu gwasanaethau i'r safle hwnnw o fewn pum mlynedd cyn gwneud cysylltiad parhaol newydd cyntaf y datblygiad newydd, efallai y gostyngir cyfanswm y taliadau seilwaith dŵr ar gyfer y safle.

Caiff nifer yr eiddo domestig a oedd yn bodoli ac a oedd â chysylltiad dŵr ar y safle yn ystod y pum mlynedd, neu yn achos eiddo dibreswyl sydd wedi cael mesurydd, nifer y credydau sy'n ddyledus yn seiliedig ar y defnydd cyfartalog o ddŵr yn y datblygiad blaenorol yn ystod y pum mlynedd, ei ddidynnu o gyfanswm y lluosyddion perthnasol ar gyfer y cysylltiadau sy'n deillio o'r datblygiad newydd.

Bydd lluosi'r cyfanswm newydd â'r tâl safonol yn rhoi cyfanswm y tâl seilwaith dŵr ar gyfer y safle. Gwneir gostyngiad tebyg o ran cysylltiadau carthffosiaeth dŵr budr yn unig a oedd yn gwasanaethu'r safle yn flaenorol.

Os bydd anghydfod o ran y lluosydd perthnasol a gyfrifir ar gyfer datblygiad rhwng y Cwmni a'r unigolyn y codir unrhyw dâl seilwaith arno, gellir cyfeirio'r mater at yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr (Ofwat) yn y cyfeiriad a nodir ar dudalen 6.

**Nodiadau:** 1. Mae cyfeiriadau at unrhyw ffitiad yn cynnwys cyfeiriad at unrhyw waith plymio, allfa, lle pwrpasol neu gynllunio neu ddarpariaeth arall ar gyfer y ffitiad hwnnw. 2. Mae baddon yn cynnwys baddon trobwll a Jacuzzi. 3. Mae offer domestig yn golygu offer (gan gynnwys peiriant golchi llestri, peiriant golchi dillad ac uned gwaredu gwastraff) mewn tŷ. 4. Mae offer cymunedol neu fasnachol yn golygu offer (gan gynnwys peiriant golchi llestri, peiriant golchi dillad ac uned gwaredu gwastraff) mewn man arall ar wahân i dŷ (gan gynnwys cyfleusterau cymunedol).